



## **SWYDD WAG: SWYDDOG YMGYSYLLTU Â CHYFRANOGWYR**

### **DATGANIAD CENHADAETH Y PROSIECT INSIDE OUT CYMRU**

Mae Inside Out Cymru yn bodoli i annog mynediad i'r celfyddydau a mynegiant creadigol, gan hyrwyddo lles meddyliol trwy weithdai celfyddydau, digwyddiadau, gweithio mewn partneriaeth a gweithgareddau eraill a gynhelir mewn cymunedau lleol.

Nod Inside Out yw creu lleoliadau integredig mewn cymunedau lleol i bawb a bod yn gynhwysol ym mhopeth y mae'n ei wneud.

Byddwn yn herio stereoteipiau a stigma o amgylch materion iechyd meddwl, yn codi hunan-barch a lefelau hyder ac yn datblygu sgiliau cymdeithasol ac artistig ein cyfranogwyr.

### **CEFNDIR Y PROSIECT**

Mae'r Prosiect Inside Out wedi gweithredu ym Mwrdeistref Sirol Caerffili er 2000, a daeth yn yr elusen Inside Out Cymru (IOC) yn 2013, gan ymestyn ei waith i ardal ehangach Gwent.

Mae Inside Out Cymru yn gweithio gydag oedolion gyda'r nod o hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles meddyliol drwy'r celfyddydau a gweithgarwch creadigol. Mae gweithdai ar agor i'r cyhoedd, ond mae croeso arbennig i gyfranogwyr â phroblemau iechyd meddwl. Cynhelir gweithdai mewn nifer o leoliadau gwahanol ledled Gwent.

Mae'r elusen Inside Out Cymru yn cael ei rhedeg gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau gwirfoddol, gweithwyr iechyd meddwl, swyddogion celfyddydau ac asiantaethau datblygu eraill. pment agencies.

Ymhlith y gweithdai celfyddydau a gynhaliwyd hyd yn hyn mae ffotograffiaeth, ysgrifennu creadigol, cerddoriaeth, celfyddydau gweledol, crefftau, adrodd straeon digidol, dawns a drama. Mae IOC yn creu cyfleoedd rheolaidd i arddangos gwaith y cyfranogwyr, gan gynnwys recordio CDs, darlleniadau barddoniaeth, arddangosfeydd celfyddydau gweledol, ffilmiau a sioeau.

## SWYDD WAG

Mae Inside Out Cymru (IOC) yn chwilio am Swyddog Ymgysylltu â Chyfranogwyr i gefnogi rhaglen yr elusen o weithdai.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad o gefnogi cyfranogwyr. Bydd y swydd yn canolbwyntio ar gynorthwyo pobl i gael mynediad i'r gweithdai, cadw cofnodion cywir a choladu gwybodaeth fonitro a gwerthuso fel y cytunwyd arno gyda Rheolwr Cyffredinol IOC.

Bydd y contract cyfnod penodol yn rhedeg tan 31 Mawrth 2023 ac mae'n seiliedig ar oriau gwaith hyblyg o 22.5 awr yr wythnos (0.6 cyfwerth ag amser llawn), gyda chyflog £19,000 *pro rata* (£11,400 gwirioneddol). Nid contract llawrydd yw hwn - os byddwch yn llwyddiannus byddwch yn cael eich cyflogi gan yr elusen.

## TROSOLWG

Bydd y Swyddog Cyfranogiad ac Ymgysylltu yn:

- Cynorthwyo Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a staff eraill IOC i ddarparu ar gyfer cyflwyno gweithgareddau IOC.
- Monitro a chefnogi'r holl gyfranogwyr i gael mynediad i weithdai IOC.
- Sicrhau bod cronfa ddata cyfranogwyr yn gyfoes.
- Cynnal systemau monitro rheolaidd a darparu adroddiadau cyfranogiad rheolaidd.
- Sicrhau bod data'n cael ei goladu'n rheolaidd ac yn amserol a'i storio ar system IOC fel y nodir ym Mholisi Monitro a Gwerthuso IOC.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Cyffredinol, Rheolwr Gweinyddol, Rheolwr Cyfranogiad, Artistiaid a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i helpu i gyflwyno rhaglen o weithdai ar draws ardal Gwent yn ogystal â chryfhau cynaliadwyedd a gweledigaeth y prosiect yn gyffredinol.

## GWEITHGAREDDAU ALLWEDDOL Y SWYDD

- Cefnogi pobl i gael mynediad i weithdai.
- Bod yn bwynt cyswllt ar gyfer cyfranogwyr presennol a darpar gyfranogwyr.
- Logio/cofrestru cyfranogwyr newydd.
- Cynnal cronfa ddata o gyfranogwyr.
- Cadw rhestr aros ar gyfer gweithdai os/pan fo angen.
- Datblygu a chyflwyno taflen 'groeso' ar gyfer cyfranogwyr, partneriaid a therapyddion galwedigaethol newydd gan gynnwys cyfarwyddiadau ar gyfer sesiynau ar-lein.
- Ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol gyda chyfranogwyr, artistiaid a phartneriaid a monitro niferoedd ymgysylltu.
- Monitro presenoldeb a chyflwyno adroddiad misol i'r Rheolwr Cyffredinol.
- Casglu data monitro o gofrestrau at ddibenion gwerthuso.

- Casglu ffurflenni adborth chwarterol at ddibenion gwerthuso.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Cyfranogiad i goladu data at ddibenion gwerthuso.
- Datblygu 'grŵp ffocws/fforwm' at ddibenion gwerthuso, gan gynnwys astudiaethau achos posibl.
- Nodi ac adrodd ar faterion perthnasol a allai effeithio ar gyfranogwyr.
- Cefnogi'r Rheolwr Cyfranogiad i ddatblygu cronfa ddata o bartneriaid a rhanddeiliaid.

## HOW TO APPLY

Dylid e-bostio llythyr cais yn nodi manylion sut rydych chi'n bodloni manyleb y person, CV cysylltiedig, ac enwau dau ganolwr at **noleen@inside-out-cymru.org**.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd ddydd Gwener 4 Mehefin 2021 a byddwn yn gwahodd y rhai sydd ar y rhestr fer i gael cyfweiliad ddydd Mawrth 15 Mehefin 2021.

## SWYDD DDISGRIFIAD

- Gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer y sefydliad, yn enwedig mewn perthynas â defnyddwyr gwasanaeth/cyfranogwyr sy'n defnyddio'r rhaglen o weithdai.
- Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Cyfranogiad i gefnogi'r rhaglen reolaidd o sesiynau a gweithgareddau eraill fel y cytunwyd arno gan IOC.
- Casglu a darparu gwybodaeth fonitro a gwerthuso yn fisol, ac yn chwarterol fel y nodir yn y Polisi Monitro a Gwerthuso ac fel y cytunwyd gyda'r Rheolwr Cyffredinol.
- Cynnal cronfa ddata o gyfranogwyr a gwybodaeth arall yn ôl y gofyn.
- Cefnogi cyfranogwyr i gael mynediad i'r rhaglen.
- Casglu ffurflenni cofrestru a diweddarau'r holl wybodaeth am gyfranogwyr.
- Ymgysylltu â chyfranogwyr yn rheolaidd a chynorthwyo IOC i estyn allan at gyfranogwyr nad ydynt yn gallu cael mynediad i sesiynau wyneb yn wyneb.
- Ymgysylltu â chyfranogwyr IOC gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau ar-lein eraill yn rheolaidd.
- Datblygu Grŵp Llywio Cyfranogwyr o dan arweiniad y Rheolwr Cyffredinol.
- Cysylltu â gwasanaethau a sefydliadau perthnasol i nodi buddiolwyr posibl ar gyfer prosiectau penodol.
- Gweithio i gefnogi'r Rheolwr Cyfranogiad ac artistiaid i drefnu digwyddiadau dathlu.
- Ymgymryd â hyfforddiant fel y cytunwyd ar ran Inside Out Cymru i gynorthwyo gyda pholisi'r sefydliad.
- Meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am amrywiaeth, cydraddoldeb a hyfforddiant anabled.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n dod o fewn cwrmpas a gradd y swydd.

## MANYLEB Y PERSON

### Rhinweddau/Profiad Hanfodol

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol a sgiliau rhyngpersonol gydag unigolion, sefydliadau a gweithwyr proffesiynol.
- O leiaf dwy flynedd o brofiad o gymorth prosiect mewn lleoliad sefydliadol.
- Sgiliau gweinyddol rhagorol, llythrennedd TG, cofnodi data, sylw i fanylion
- Profiad o ddefnyddio cronfeydd data, casglu data, cofnodi data, systemau, ffurflenni, polisiau a gweithdrefnau a dealltwriaeth ohonynt.
- Sgiliau gweithio tîm rhagorol, y gallu i weithio o fewn fframwaith penodol ar eich menter eich hun.
- Sgiliau hunanreoli a rheoli amser da.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl a sensitifrwydd i anghenion unigolion sy'n agored i niwed.
- Profiad o gefnogi oedolion sy'n agored i niwed

- Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant.
- Gweithio gyda Bwrdd Ymddiriedolwyr
- Parodrwydd i gael gwiriad DBS manylach.
- Y gallu i weithio 22.5 awr yr wythnos fel y cytunwyd arno gyda'r Rheolwr Cyffredinol. Weithiau i fod ar gael i fynychu digwyddiadau gyda'r nos neu ar benwythnosau.

### **Rhinweddau/ Profiad Dymunol**

- Gyrrwr gyda'i gerbyd ei hun
- Profiad o weithio naill ai yn y celfyddydau neu yn y sector iechyd
- Wedi derbyn addysg mewn maes perthnasol fel y celfyddydau neu iechyd a gofal cymdeithasol.
- Diddordeb yn y celfyddydau a'u heffaith ar unigolion
- Siaradwr Cymraeg neu ddysgwr

Mae Inside Out Cymru yn ymdrechu i fod yn gyflogwr cyfle cyfartal.

Mae'r swydd hon yn cael ei hariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. nd.

